OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1373 (Cy.136)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - - 8 Mehefin 2009
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 9 Mehefin 2009
Yn dod i rym - - 30 Mehefin 2009

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) 2009; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 30 Mehefin 2009.

Diwygio

2. Diwygir Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008(**3**) fel a nodir yn y Rheoliadau hyn.

3. Yn rheoliad 2 (Dehongli cyffredinol)—

(a) mewnosoder, yn y lle priodol yn ôl trefn yr wyddor—

(**1**) O.S. 2005/2766. Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2008/1275.

"ystyr "y farchnad ddomestig" ("*domestic market*") yw'r farchnad ar gyfer gwerthu cig dofednod yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon;";

(b) hepgorer y diffiniad o "dyddiad perthnasol";

(c) yn y lle priodol yn ôl trefn yr wyddor mewnosoder—

"ystyr "cig moch seropositif" ("*seropositive pig meat*") yw cig sy'n dod o fochyn seropositif—

(a) nad yw'n gig dan gyfyngiadau, a

(b) na chafodd ei drin yn unol ag Atodlen 2 mewn canolfan driniaeth ddynodedig;"; ac

"ystyr "mochyn seropositif" ("*seropositive pig*") yw mochyn nad yw'n anifail dan gyfyngiadau ond yn un y mae Gweinidogion Cymru'n ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei gigydda mewn lladd-dy oherwydd bod gwrthgorffynnau yn erbyn feirws clefyd pothellog y moch wedi cael eu canfod yn y mochyn hwnnw;".

4. Yn rheoliad 3 (Anifail, dofednod a chig dan gyfyngiadau: diffiniadau)—

(a) yn lle paragraff (8) rhodder—

"(8) Yn ddarostyngedig i baragraff (9) "cig dan gyfyngiadau" ("restricted meat") yw cig—

(a) a gynhyrchwyd ar neu ar ôl y dyddiad y datganwyd y parth gwarchod neu'r parth gwyliadwriaeth, neu ddyddiad cynharach os bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r dyddiad hwnnw at ddibenion rheoli clefydau;

(b) sy'n dod o anifail dan gyfyngiadau neu ddofednod dan gyfyngiadau o ardal heintiedig, parth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth; ac

(c) sy'n cynnwys cig a ddaeth i gyffyrddiad â'r cyfryw gig.";

(b) ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

"(9) Os yw cig dan gyfyngiadau wedi cael ei drin yn unol ag Atodlen 2 mewn canolfan driniaeth mae'n peidio â chael ei ganfod fel cig dan gyfyngiadau.".

5. Yn rheoliad 7 (Cig o fangre dan amheuaeth neu fangre heintiedig) mewnosoder ar ôl paragraff (3)—

"(4) Yn y rheoliad hwn ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*relevant date*") yw'r dyddiad y daeth y fangre dan amheuaeth neu'r fangre heintiedig yn destun cyfyngiadau oherwydd clefyd, neu unrhyw ddyddiad cynharach os bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r dyddiad hwnnw at ddibenion rheoli clefydau.".

6. Yn rheoliad 9 (Gwahardd cyflenwi ac allforio cig)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer y gair "neu" sy'n dod yn union o flaen is-baragraff (b);

(ii) ar ddiwedd is-baragraff (b), hepgorer yr atalnod llawn ac ychwaneger—

"; neu

(c) allforio cig moch seropositif.";

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Nid yw'r gwaharddiad ym mharagraff 1(a) yn gymwys i gig dan gyfyngiadau o ddofednod dan gyfyngiadau a fwriedir ar gyfer ei gyflenwi i'r farchnad ddomestig.";

(c) hepgorer paragraff (3).

7. Yn rheoliad 10 (Lladd-dai)—